OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 100

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2027*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 100

The Child Minding and Day Care Exceptions (Revocation and Transitional Provision) (Wales) Order 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*1 April 2027*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 100

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur"), ac mae'n dirymu ac yn disodli Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Gorchymyn 2010").

Mae Rhan 2 o'r Mesur yn darparu ar gyfer cofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yng Nghymru gan Weinidogion Cymru.

Mae adrannau 21(1) a 23(1) o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i warchodwr plant a pherson sy'n darparu gofal dydd i blant gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Mae adran 19(2) o'r Mesur yn datgan bod person yn "gwarchod plant" os yw'r person hwnnw yn gofalu am blentyn neu blant o dan 12 oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr. Mae adran 19(3) o'r Mesur yn datgan bod person yn darparu "gofal dydd i blant" os yw'r person yn darparu gofal ar unrhyw adeg i blant o dan 12 oed mewn mangre heblaw mangre ddomestig.

Mae'n drosedd o dan adran 21(5) o'r Mesur i berson weithredu fel gwarchodwr plant heb iddo gael ei gofrestru'n warchodwr plant gan Weinidogion Cymru. Mae adran 23(2) o'r Mesur yn ei gwneud yn drosedd i berson ddarparu gofal dydd heb iddo gael ei gofrestru gan Weinidogion Cymru i ddarparu gofal dydd.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi eithriadau i'r hyn a olygir wrth "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant" at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur. Mae'r Gorchymyn wedi ei wneud yn unol â phwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 19(4) a (5) o'r Mesur i bennu amgylchiadau pan fo person y byddai ei weithgareddau fel arall yn gyfystyr â "gwarchod plant" neu ddarparu "gofal dydd i blant" wedi ei eithrio rhag y gofyniad i gofrestru.

Mae Rhan 1 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn y Gorchymyn.

Mae Rhan 2 yn nodi gwahanol amgylchiadau pan na fo person yn "gwarchod plant" at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur. Pan fo unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yn Rhan 2 o'r Gorchymyn yn gymwys, nid yw'n ofynnol i berson gofrestru'n warchodwr plant gyda Gweinidogion Cymru.

Mae Rhan 3 yn nodi'r amgylchiadau pan na fo person yn darparu "gofal dydd i blant" at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur. Pan fo unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yn Rhan 3 o'r Gorchymyn yn gymwys, nid yw'n ofynnol i berson gofrestru'n ddarparwr gofal dydd gyda Gweinidogion Cymru.

Mae Rhan 4 yn dirymu Gorchymyn 2010 ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 100

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2027*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(4) a (5) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**) ("y Mesur").

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 74(5) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2027.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) Mae cyfeiriadau yn y Mesur at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**);

mae i “cyfrifoldeb rhiant” yr ystyr a roddir i “parental responsibility” yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(**4**);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**5**);

ystyr “Deddf 2016” (“*the 2016 Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**6**);

mae i “gwasanaeth cymorth cartref” (“*domiciliary support service*”) yr ystyr a roddir gan baragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys unrhyw le ac unrhyw gerbyd;

ystyr “mangre ddomestig” (“*domestic premises*”) yw unrhyw fangre sy’n cael ei defnyddio’n gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd breifat;

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr “perthynas” (“*relative*”), mewn perthynas â pherson, yw llys-riant, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr, modryb, neu gefnder cyfan neu gyfnither gyfan (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);

mae “rhiant” (“*parent*”) yn cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu sydd â gofal am blentyn;

ystyr “wedi ei gyflogi” (“*employed*”) yw wedi ei gyflogi naill ai o dan gontract cyflogaeth neu o dan gontract am wasanaethau.

RHAN 2

Eithriadau o ran gwarchod plant

Eithriad o ran cofrestru

3. Mae erthyglau 4 i 9 o’r Gorchymyn hwn yn pennu’r amgylchiadau pan na fo’n ofynnol i berson sy’n darparu gofal i blentyn o dan 12 oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr gofrestru’n warchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o’r Mesur.

Darpariaeth â therfyn amser

4.—(1) Nid yw person sy’n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo’r person hwnnw yn gofalu am blentyn am—

(a) un cyfnod o 2 awr neu lai, neu

(b) cyfnodau sy’n dod i gyfanswm o 2 awr neu lai,

y dydd.

(2) Ond nid yw’r eithriad hwn yn gymwys—

(**3**) 2006 p. 42.
(**4**) 1989 p. 41.
(**5**) 2014 dccc 4.
(**6**) 2016 dccc 2.

(a) pan fo person yn gofalu am blentyn nad yw wedi cyrraedd 3 oed eto oni bai bod rhiant y plentyn—

(i) yn parhau yn y fangre, a

(ii) yn gallu ailddechrau gofalu am y plentyn heb oedi gormodol ar gais y person, neu

(b) i berson sydd wedi ei gofrestru'n warchodwr plant o dan Ran 2 o'r Mesur ond y mae ei gofrestriad wedi ei atal dros dro o dan reoliad 40(1) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**7**).

Prif ofalwyr, perthnasau a phersonau sy'n cyd-fyw

5.—(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—

(a) yn rhiant i'r plentyn;

(b) yn berthynas i'r plentyn;

(c) yn ofalwr maeth ar gyfer y plentyn;

(d) yn byw ar yr un aelwyd â'r plentyn.

(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys pan fo person sy'n dod o fewn paragraff (1)(b) neu (d)—

(a) yn gofalu am y plentyn mewn mangre heblaw cartref y plentyn, a

(b) yn bwriadu gofalu am blant eraill nad ydynt yn perthyn i'r person hwnnw ac nad ydynt yn byw ar ei aelwyd.

(3) Yn yr erthygl hon, mae "gofalwr maeth" yn cynnwys person—

(a) y mae awdurdod lleol wedi lleoli plentyn gydag ef yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**8**);

(b) sydd wedi ei gymeradwyo'n rhiant maeth yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(**9**);

(c) sy'n maethu plentyn yn breifat, o fewn ystyr "to foster a child privately" yn adran 66 o Ddeddf Plant 1989.

Darparu gofal yng nghartref y plentyn drwy gytundeb rhieni

6.—(1) Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo'r person hwnnw—

(a) yn gofalu am—

(i) plentyn neu blant i'r rhieni ("y rhieni cyntaf") yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf, neu

(ii) plentyn neu blant i'r rheini cyntaf ac, yn ychwanegol, am blentyn neu blant i rieni gwahanol ("yr ail rieni"), yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf neu'r ail rieni neu yn y ddau gartref, a

(b) yn gwneud y trefniadau i'r plentyn neu'r plant gael gofal o dan gytundeb ag—

(i) y rhieni cyntaf pan fo erthygl 6(1)(a)(i) yn gymwys, neu

(**7**) O.S. 2010/2574 (Cy. 214).
(**8**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).
(**9**) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).

(ii) y rhieni cyntaf a'r ail rieni pan fo erthygl 6(1)(a)(ii) yn gymwys.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "cytundeb" yn cynnwys contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau, pa un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Darparu gofal arall yng nghartref y plentyn

7.—(1) Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo'r person hwnnw yn gofalu am blentyn yn rhan o weithgareddau rheoleiddiedig gwasanaeth cymorth cartref a ddarperir i'r plentyn neu i ofalwr y plentyn—

(a) o dan Ran 4 o Ddeddf 2014, a

(b) o dan drefniadau a wneir–

(i) gan riant y plentyn;

(ii) gan neu ar ran awdurdod lleol;

(iii) gan neu ar ran Bwrdd Iechyd Lleol.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys pa un a yw'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparwr y gwasanaeth cymorth cartref yn uniongyrchol neu gan berson sydd wedi ei gyflogi ar ran y darparwr.

(3) Yn yr erthygl hon, mae i "gofalwr" yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf 2014.

Darparu gofal yng nghwrs cyfeillgarwch

8.—(1) Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo'r person hwnnw yn gofalu am blentyn yng nghwrs cyfeillgarwch â rhiant y plentyn hwnnw a phan na fo unrhyw daliad yn cael ei wneud.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "taliad" yw taliad o arian neu gyfwerth ariannol ond nid yw'n cynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau.

Cynorthwywyr gwarchod plant

9. Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo'r person hwnnw wedi ei gyflogi i ofalu am blant neu pan fo'r person hwnnw yn gweithio fel arall o dan gyfarwyddyd a rheolaeth gwarchodwr plant sydd wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o'r Mesur.

RHAN 3

Eithriadau o ran gofal dydd i blant

Eithriad o ran cofrestru

10. Mae erthyglau 11 i 20 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r amgylchiadau pan na fo'n ofynnol i berson sy'n darparu gofal i blentyn o dan 12 oed mewn mangre heblaw mangre ddomestig gofrestru i ddarparu gofal dydd at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur.

Darpariaeth â therfyn amser

11.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn darparu gofal i blentyn am—

(a) un cyfnod o 2 awr neu lai, neu

(b) cyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 2 awr neu lai,

y dydd.

(2) Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(a) pan fo person yn gofalu am blentyn o dan 3 oed oni bai bod rhiant y plentyn—

(i) yn parhau yn y fangre, a

(ii) yn gallu ailddechrau gofalu am y plentyn heb oedi gormodol ar gais y person, neu

(b) i berson sydd wedi ei gofrestru'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur ond y mae ei gofrestriad wedi ei atal dros dro o dan reoliad 40(1) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Darparu gofal yn achlysurol

12.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd—

(a) pan fo'r person yn darparu gofal i blentyn mewn mangre benodol am 5 niwrnod neu lai mewn unrhyw flwyddyn galendr, a

(b) pan fo'r person wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig cyn yr achlysur cyntaf y defnyddir y fangre o dan sylw yn y flwyddyn honno.

(2) Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan fo person yn gofalu am blentyn o dan 3 oed oni bai bod rhiant y plentyn—

(a) yn parhau yn y fangre, a

(b) yn gallu ailddechrau gofalu am y plentyn heb oedi gormodol ar gais y person.

Darparu gofal drwy gytundeb rhieni

13.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person—

(a) yn darparu gofal i—

(i) plentyn neu blant i rieni ("y rhieni cyntaf") mewn mangre annomestig a enwebwyd gan y rhieni cyntaf, neu

(ii) plentyn neu blant i'r rhieni cyntaf ac, yn ychwanegol, i blentyn neu blant i rieni gwahanol ("yr ail rieni") mewn mangre annomestig a enwebwyd gan y rhieni cyntaf a'r ail rieni, a

(b) yn gwneud y trefniadau i'r plentyn neu'r plant gael gofal o dan gytundeb ag—

(i) y rhieni cyntaf pan fo erthygl 13(1)(a)(i) yn gymwys, neu

(ii) y rhieni cyntaf a'r ail rieni pan fo erthygl 13(1)(a)(ii) yn gymwys.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "cytundeb" yn cynnwys contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau, pa un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Darparu gofal mewn gwasanaethau llety rheoleiddiedig eraill

14.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn darparu gofal i blentyn—

(a) yn rhan o wasanaeth cartref gofal mewn man sydd wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw o dan Ran 1 o Ddeddf 2016(**10**),

(b) yn rhan o wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd mewn man sydd wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw o dan Ran 1 o Ddeddf 2016,

(**10**) 2016 dccc 2.

(c) yn rhan o wasanaeth llety diogel mewn man sydd wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw o dan Ran 1 o Ddeddf 2016,

(d) yn rhan o wasanaeth preswyl ysgol arbennig mewn man sydd wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw o dan Ran 1 o Ddeddf 2016, neu

(e) mewn ysbyty fel claf,

a phan fo'r gofal yn cael ei ddarparu yn rhan o brif weithgaredd y sefydliad o dan sylw.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys pa un a yw'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparwr y sefydliad yn uniongyrchol neu gan berson sydd wedi ei gyflogi ar ran y darparwr.

(3) Yn yr erthygl hon—

mae i "gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd" ("*residential family centre service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("*care home service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

mae i "gwasanaeth llety diogel" ("*secure accommodation service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

mae i "gwasanaeth preswyl ysgol arbennig" ("*special school residential service*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023(**11**).

Darparu gofal gan ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref

15.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn gofalu am blentyn yn rhan o weithgareddau rheoleiddiedig gwasanaeth cymorth cartref a ddarperir i'r plentyn neu i ofalwr y plentyn—

(a) o dan Ran 4 o Ddeddf 2014, a

(b) o dan drefniadau a wneir—

(i) gan riant y plentyn;

(ii) gan neu ar ran awdurdod lleol;

(iii) gan neu ar ran Bwrdd Iechyd Lleol.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys pa un a yw'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparwr y gwasanaeth cymorth cartref yn uniongyrchol neu gan berson sydd wedi ei gyflogi ar ran y darparwr.

(3) Yn yr erthygl hon, mae i "gofalwr" yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf 2014.

Darparu gofal mewn ysgol

16.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn darparu gofal mewn ysgol i blentyn sydd wedi cyrraedd 3 oed a phan fo'r gofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu addysg.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "ysgol" yw—

(a) ysgol a gynhelir o fewn ystyr "maintained school" yn adran 39 o Ddeddf Addysg 2002(**12**), neu

(b) ysgol annibynnol.

(**11**) O.S. 2023/1327 (Cy. 238).
(**12**) 2002 p. 32.

Darparu coetsio neu ddysgu

17.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo—

(a) y person yn darparu coetsio neu ddysgu i blentyn mewn dim mwy na dau o'r mathau o weithgareddau a restrir ym mharagraff (3), a

(b) unrhyw ofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu'r coetsio neu'r dysgu hwnnw.

(2) Ond nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys pan ddarperir y gofal i unrhyw blentyn—

(a) nad yw wedi cyrraedd 3 oed, neu

(b) sydd wedi cyrraedd 3 oed ond sydd heb gyrraedd 5 oed eto, ac y darperir coetsio neu ddysgu iddo am fwy na 2 awr y dydd.

(3) Y mathau o weithgareddau yw—

(a) chwaraeon;

(b) y celfyddydau mynegiannol a'r celfyddydau creadigol;

(c) cymorth addysgol (gan gynnwys cymorth yn y meysydd dysgu a phrofiad hynny a nodir yn adran 3(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021)(**13**);

(d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

Gwasanaethau ieuenctid

18.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn darparu gwasanaeth ieuenctid i blentyn sydd wedi cyrraedd 11 oed, a phan fo unrhyw ofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ieuenctid hwnnw.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "gwasanaeth ieuenctid" yw gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3).

(3) Y mathau o weithgareddau yw'r rhai—

(a) sy'n annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo plentyn sydd wedi cyrraedd 11 oed i gymryd rhan yn effeithiol—

(i) mewn gweithgareddau hamdden;

(ii) mewn addysg a hyfforddiant;

(iii) ym mywyd eu cymunedau, a

(b) pan na fo'n ofynnol i'r plentyn dalu i gymryd rhan mewn gweithgaredd o'r fath, neu pan fo'n ofynnol iddo wneud taliad nominal yn unig i wneud hynny.

Gwasanaethau ieuenctid wrth bontio

19.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person yn darparu gwasanaeth ieuenctid wrth bontio i blentyn sydd wedi cyrraedd 10 neu 11 oed, a phan fo unrhyw ofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ieuenctid wrth bontio hwnnw.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "gwasanaeth ieuenctid wrth bontio" yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth addysgol, personol a chymdeithasol i blentyn wrth iddo bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, a phan na fo'n ofynnol i blentyn sy'n cymryd rhan dalu am y gwasanaeth, neu pan fo'n ofynnol iddo wneud taliad nominal yn unig am y gwasanaeth hwnnw.

(**13**) 2021 dsc 4.

Gweithwyr gofal plant

20.—(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r person hwnnw wedi ei gyflogi'n weithiwr gofal plant gan berson sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "gweithiwr gofal plant" yw person sydd wedi ei gyflogi o dan yr amgylchiadau sy'n dod o fewn adran 79(3)(m) o Ddeddf 2016(**14**) i ddarparu "gofal plant" fel y'i diffinnir yn adran 79(3A) o Ddeddf 2016(**15**).

RHAN 4

Dirymu a darpariaeth drosiannol

Dirymu

21. Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 wedi ei ddirymu(**16**).

Darpariaeth drosiannol

22.—(1) Pan fo person a oedd, yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, yn darparu gwasanaeth ond a oedd wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gofrestru oherwydd bod y gwasanaeth yn dod o fewn eithriad a bennir yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, yn gwneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur erbyn 31 Mawrth 2028, nid yw'r person i'w drin fel pe bai wedi gweithredu yn groes i adran 21(1) (dyletswydd gwarchodwyr plant i gofrestru) nac adran 23(1) (dyletswydd darparwyr gofal dydd i gofrestru) o'r Mesur yn ystod y cyfnod gwneud cais.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "cyfnod gwneud cais" yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym, a

(b) sy'n dod i ben ar—

(i) y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu'r cais i gofrestru, neu

(ii) pan fo'r penderfyniad hwnnw yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 37 o'r Mesur, y dyddiad y caiff yr apêl ei phenderfynu.

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
25 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**14**) 2016 dccc 2. Mewnosodwyd adran 79(3)(m) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1), adran 18(2)(a)(ii); nid yw'r diwygiad mewn grym eto.
(**15**) 2016 dccc 2. Mewnosodwyd adran 79(3A) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1), adran 18(2)(b); nid yw'r diwygiad mewn grym eto.
(**16**) O.S. 2010/2839 (Cy. 233).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 100

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Child Minding and Day Care Exceptions (Revocation and Transitional Provision) (Wales) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is made under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 ("the Measure"), and revokes and replaces the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010 ("the 2010 Order").

Part 2 of the Measure provides for the registration and inspection of child minders and day care providers in Wales by the Welsh Ministers.

Sections 21(1) and 23(1) of the Measure require a child minder and a person providing day care for children to register with the Welsh Ministers. Section 19(2) of the Measure states that a person provides "child minding" if that person looks after one or more children under the age of 12 on domestic premises for reward. Section 19(3) of the Measure states that a person provides "day care for children" if the person provides care at any time for children under the age of 12 on premises other than domestic premises.

It is an offence under section 21(5) of the Measure for a person to act as a child minder without being registered as a child minder by the Welsh Ministers. Section 23(2) of the Measure makes it an offence for a person to provide day care without being registered to provide day care by the Welsh Ministers.

This Order sets out exceptions to what constitutes "child minding" and "day care for children" for the purposes of Part 2 of the Measure. The Order is made in accordance with powers given to the Welsh Ministers in section 19(4) and (5) of the Measure to specify circumstances in which a person whose activity would otherwise amount to "child minding" or provision of "day care for children" is excepted from the requirement to register.

Part 1 of this Order contains definitions of certain terms used in the Order.

Part 2 sets out various circumstances in which a person is not providing “child minding” for the purposes of Part 2 of the Measure. Where any of the circumstances set out in Part 2 of the Order apply, a person is not required to register as a child minder with the Welsh Ministers.

Part 3 sets out the circumstances in which a person is not providing “day care for children” for the purposes of Part 2 of the Measure. Where any of the circumstances set out in Part 3 of the Order apply, a person is not required to register as a day care provider with the Welsh Ministers.

Part 4 revokes the 2010 Order and makes provision for transitional arrangements.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Health, Social Care and Early Years Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 100

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Child Minding and Day Care Exceptions (Revocation and Transitional Provision) (Wales) Order 2026

Made	*25 March 2026*
Coming into force	*1 April 2027*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 19(4) and (5) and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**) ("the Measure").

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 74(5) of the Measure, a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(**2**).

PART 1

Preliminary

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Child Minding and Day Care Exceptions (Revocation and Transitional Provision) (Wales) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 1 April 2027.

Interpretation

2. In this Order—

"the 2014 Act" ("*Deddf 2014*") means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**3**);

(**1**) 2010 nawm 1.
(**2**) References in the Measure to "the National Assembly for Wales" now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) 2014 anaw 4.

"the 2016 Act" ("*Deddf 2016*") means the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**4**);

"domestic premises" ("*mangre ddomestig*") means any premises which are wholly or mainly used as a private dwelling;

"domiciliary support service" ("*gwasanaeth cymorth cartref*") has the meaning given by paragraph 8 of Schedule 1 to the 2016 Act;

"employed" ("*wedi ei gyflogi*") means employed either under a contract of employment or under a contract for services;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means the council of a county or county borough in Wales;

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**5**);

"the Measure" ("*y Mesur*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010;

"parent" ("*rhiant*") includes any person who has parental responsibility for a child or has care of a child;

"parental responsibility" ("*cyfrifoldeb rhiant*") has the meaning given in section 3 of the Children Act 1989(**6**);

"premises" ("*mangre*") includes any area and any vehicle;

"relative" ("*perthynas*"), in relation to a person, means a step-parent, grandparent, brother, sister, uncle, aunt or first cousin (including any person who is in that relationship by virtue of a marriage or civil partnership or an enduring family relationship).

PART 2

Child minding exceptions

Exception to registration

3. Articles 4 to 9 of this Order specify the circumstances where a person providing care for a child under the age of 12 on domestic premises for reward is not required to register as a child minder for the purposes of Part 2 of the Measure.

Time-limited provision

4.—(1) A person looking after a child does not act as a child minder where that person looks after a child for—

(a) a single period of 2 hours or less, or

(b) periods which total 2 hours or less,

per day.

(2) But this exception does not apply—

(**4**) 2016 anaw 2.
(**5**) 2006 c. 42.
(**6**) 1989 c. 41.

(a) where a person looks after a child who is yet to attain the age of 3 unless the child's parent—

(i) remains on the premises, and

(ii) is able to resume care of the child without undue delay at the person's request, or

(b) to a person who is registered as a child minder under Part 2 of the Measure but whose registration is suspended under regulation 40(1) of the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010(**7**).

Primary carers, relatives and cohabitees

5.—(1) A person looking after a child does not act as a child minder if that person—

(a) is a parent of the child;

(b) is a relative to the child;

(c) is a foster carer for the child;

(d) is living in the same household as the child.

(2) The exception in this article does not apply where a person falling within paragraph (1)(b) or (d)—

(a) looks after the child on premises other than the child's home, and

(b) intends to look after other children to whom that person is not related or in whose household they do not live.

(3) In this article, "foster carer" includes a person—

(a) with whom a child has been placed by a local authority in accordance with the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(**8**);

(b) approved as a foster parent in accordance with regulation 8 of the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018(**9**);

(c) who fosters a child privately within the meaning of section 66 of the Children Act 1989.

Care provision in the child's home by parental agreement

6.—(1) A person does not act as a child minder where that person—

(a) looks after—

(i) a child or children of the parents ("the first parents") wholly or mainly in the home of the first parents, or

(ii) a child or children of the first parents and in addition a child or children of different parents ("the second parents"), wholly or mainly in the home of the first or second parents or in both homes, and

(b) makes the arrangements for the child or children to be looked after under an agreement with—

(i) the first parents where article 6(1)(a)(i) applies, or

(**7**) S.I. 2010/2574 (W. 214).
(**8**) S.I. 2015/1818 (W. 261).
(**9**) S.I. 2018/1333 (W. 260).

(ii) the first parents and the second parents where article 6(1)(a)(ii) applies.

(2) In this article, "an agreement" includes a contract of employment or a contract for services, whether oral or in writing.

Other care provision in the child's home

7.—(1) A person does not act as a child minder where that person looks after a child as part of the regulated activity of a domiciliary support service provided to the child or the child's carer—

(a) under Part 4 of the 2014 Act, and

(b) under arrangements made–

(i) by the child's parent;

(ii) by or on behalf of a local authority;

(iii) by or on behalf of a Local Health Board.

(2) Paragraph (1) applies whether the care is provided by the provider of the domiciliary support service directly or by a person employed on the provider's behalf.

(3) In this article, "carer" has the meaning given by section 3 of the 2014 Act.

Provision of care in the course of friendship

8.—(1) A person does not act as a child minder where that person looks after a child in the course of a friendship with the parent of that child and where no payment is made.

(2) In this article, "payment" means a payment of money or money's worth but does not include the provision of goods or services.

Child minding assistants

9. A person does not act as a child minder where that person is employed to look after children or otherwise works under the direction and control of a child minder registered by the Welsh Ministers under Part 2 of the Measure.

PART 3

Day care for children exceptions

Exception to registration

10. Articles 11 to 20 of this Order specify the circumstances where a person providing care for a child under the age of 12 on premises other than domestic premises is not required to register to provide day care for the purposes of Part 2 of the Measure.

Time-limited provision

11.—(1) A person does not provide day care where the person provides care to a child for—

(a) a single period of 2 hours or less, or

(b) periods which total 2 hours or less,

per day.

(2) But this exception does not apply—

(a) where a person looks after a child under the age of 3 unless the child's parent—

(i) remains on the premises, and

(ii) is able to resume care of the child without undue delay at the person's request, or

(b) to a person who is registered as a provider of day care under Part 2 of the Measure but whose registration is suspended under regulation 40(1) of the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010.

Occasional provision

12.—(1) A person does not provide day care where—

(a) the person provides care to a child on particular premises for 5 days or fewer in any calendar year, and

(b) the person has notified the Welsh Ministers in writing before the first occasion on which the premises concerned are used in that year.

(2) But this exception does not apply where a person looks after a child under the age of 3 unless the child's parent—

(a) remains on the premises, and

(b) is able to resume care of the child without undue delay at the person's request.

Provision of care by parental agreement

13.—(1) A person does not provide day care where the person—

(a) provides care to—

(i) the child or children of parents ("the first parents") on non-domestic premises nominated by the first parents, or

(ii) the child or children of the first parents and in addition for a child or children of different parents ("the second parents") on non-domestic premises nominated by the first and second parents, and

(b) makes the arrangements for the child or children to be looked after under an agreement with—

(i) the first parents where article 13(1)(a)(i) applies, or

(ii) the first parents and the second parents where article 13(1)(a)(ii) applies.

(2) In this article, "an agreement" includes a contract of employment or a contract for services, whether oral or in writing.

Provision of care at other regulated accommodation-based services

14.—(1) A person does not provide day care where the person provides care to a child—

(a) as part of a care home service at a place registered to provide that service under Part 1 of the 2016 Act(**10**),

(b) as part of a residential family centre service at a place registered to provide that service under Part 1 of the 2016 Act,

(c) as part of a secure accommodation service at a place registered to provide that service under Part 1 of the 2016 Act,

(**10**) 2016 anaw 2.

(d) as part of a special school residential service at a place registered to provide that service under Part 1 of the 2016 Act, or

(e) in a hospital as a patient,

and the care is provided as part of the primary activity of the establishment in question.

(2) Paragraph (1) applies whether the care is provided by the provider of the establishment directly or by a person employed on the provider's behalf.

(3) In this article—

"care home service" ("*gwasanaeth cartref gofal*") has the meaning given by paragraph 1 of Schedule 1 to the 2016 Act;

"residential family centre service" ("*gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd*") has the meaning given by paragraph 3 of Schedule 1 to the 2016 Act;

"secure accommodation service" ("*gwasanaeth llety diogel*") has the meaning given by paragraph 2 of Schedule 1 to the 2016 Act;

"special school residential service" ("*gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*") has the meaning given in regulation 2 of the Regulated Services (Special School Residential Services) (Wales) Regulations 2023(**11**).

Provision of care by a domiciliary support service provider

15.—(1) A person does not provide day care where the person looks after a child as part of the regulated activity of a domiciliary support service provided to the child or the child's carer—

(a) under Part 4 of the 2014 Act, and

(b) under arrangements made—

(i) by the child's parent;

(ii) by or on behalf of a local authority;

(iii) by or on behalf of a Local Health Board.

(2) Paragraph (1) applies whether the care is provided by the provider of the domiciliary support service directly or by a person employed on the provider's behalf.

(3) In this article, "carer" has the meaning given by section 3 of the 2014 Act.

Provision of care at a school

16.—(1) A person does not provide day care where the person provides care at a school to a child who has attained the age of 3 and the care provided is incidental to the provision of education.

(2) In this article, "school" means—

(a) a maintained school within the meaning of section 39 of the Education Act 2002(**12**), or

(b) an independent school.

Coaching or tuition provision

17.—(1) A person does not provide day care where—

(**11**) S.I. 2023/1327 (W. 238).
(**12**) 2002 c. 32.

(a) the person provides coaching or tuition to a child in no more than two of the types of activity listed in paragraph (3), and

(b) any care provided is incidental to the provision of that coaching or tuition.

(2) But the exception in this article does not apply where the care is provided to any child who—

(a) has not attained the age of 3, or

(b) has attained the age of 3 but is yet to attain the age of 5, and to whom coaching or tuition is provided for more than 2 hours per day.

(3) The types of activity are—

(a) sport;

(b) expressive and creative arts;

(c) educational support (including support in those areas of learning and experience set out in section 3(1) of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021)(**13**);

(d) religious or cultural study.

Youth services

18.—(1) A person does not provide day care where the person provides a youth service for a child who has attained the age of 11, and any care provided is incidental to the provision of that youth service.

(2) In this article, "youth service" means activity of a type listed in paragraph (3).

(3) The types of activity are those—

(a) that encourage, enable or assist a child who has attained the age of 11 to participate effectively in—

(i) leisure and recreational activities;

(ii) education and training;

(iii) the life of their communities, and

(b) where no payment or a nominal payment only is required from a child to participate in such activity.

Transitional youth services

19.—(1) A person does not provide day care where the person provides a transitional youth service for a child who has attained the age of 10 or 11, and any care provided is incidental to the provision of that transitional youth service.

(2) In this article, "transitional youth service" means a service providing educational, personal and social support to a child during their transition from primary to secondary education, and where no payment or a nominal payment only is required from a participating child.

(**13**) 2021 asc 4.

Childcare workers

20.—(1) A person does not provide day care where that person is employed as a childcare worker by a person registered to provide day care under Part 2 of the Measure.

(2) In this article, "childcare worker" means a person employed in the circumstances falling within section 79(3)(m) of the 2016 Act(**14**) to provide "childcare" as defined in section 79(3A) of the 2016 Act(**15**).

PART 4

Revocation and transitional provision

Revocation

21. The Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010 is revoked(**16**).

Transitional provision

22.—(1) Where a person who, immediately before the coming into force of this Order, was providing a service but was exempted from the requirement to register because the service fell within an exception specified in the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010, makes an application to the Welsh Ministers for registration under Part 2 of the Measure by 31 March 2028, the person is not to be treated as acting in contravention of section 21(1) (duty of child minders to register) or section 23(1) (duty of day care providers to register) of the Measure during the application period.

(2) In this article, "application period" means the period—

(a) beginning with the day on which this Order comes into force, and

(b) ending on—

(i) the date on which the Welsh Ministers determine the application for registration, or

(ii) where that determination is subject to an appeal under section 37 of the Measure, the date on which the appeal is determined.

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
25 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**14**) 2016 anaw 2. Section 79(3)(m) was inserted by the Health and Social Care (Wales) Act 2025 (asc 1), section 18(2)(a)(ii); the amendment is not yet in force.
(**15**) 2016 anaw 2. Section 79(3A) was inserted by the Health and Social Care (Wales) Act 2025 (asc 1), section 18(2)(b); the amendment is not yet in force.
(**16**) S.I. 2010/2839 (W. 233).

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839871-7

9 780348 398717